pp medi 13_Layout 1 10/09/2013 11:26 Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Medi 2013 Rhif 391

Beti Wyn Davies gyda'i threfniant blodau buddugol yn Sioe Llangynfelyn

Atodiad lliw: Hwyl yr Haf | tud 4/5/12 a 13 Ysgolion | tud 15 Y Gair Olaf | tud 16 Chwaraeon

Cneifwyr Cyflym Tal-y-bont

Yn dilyn llwyddiant Cneifio Cyflym 2012 penderfynwyd cynnal y digwyddiad poblogaidd yma eleni eto fel clo i weithgareddau Sioe Tal-y-bont.

Yn wahanol i llynedd roedd dwy stand gneifio wedi eu gosod y tu allan i Westy'r Llew Du fel bod y cneifwyr nid yn unig yn cneifio yn erbyn y cloc ond yn erbyn cneifiwr arall hefyd. Yn bendant fe ychwanegodd hyn at y cyffro gyda'r dorf yn gweiddi cefnogaeth i'r cneifwyr chwim. Yn ogystal â'r cystadlaethau cneifio unigol roedd cystadleuaeth tîm hefyd, ble roedd un aelod yn cneifio, un arall yn llyncu peint o gwrw a'r aelod arall yn ceisio bwrw hoelen 6 modfedd mewn i ddarn o bren derw – methodd sawl un yn drychinebus ar y dasg yma – heb enwi neb!!

Y tri gŵr doeth a gafodd y dasg o feirniadu oedd John Pughe, Gwernbere, Darowen, Endaf Meddins, Rhiwdefaidty, Penfforddlas a Geraint Lewis, Henllan, Uwchygarreg. Roeddent yn beirniadu nid yn unig yr amser cyflymaf ond safon y cneifio hefyd. Diolch yn fawr i'r tri am eu gwaith caled. Diolch hefyd i deulu Neuadd Fawr am fenthyg yr ŵyn ac i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r paratoadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar y noson. Diolch hefyd i holl noddwyr y noson.

Cyflwynwyd y gwobrau gan y Cynghorydd Ellen ap Gwynn. Canlyniadau ar dudalen 11.

Cylch Meithrin Tal-y-bont – tud 3 a 14

Grace a Benji

Maya

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	**(01970) 832560**
Tynnu lluniau:	Cysylltir â golygyddion y mis	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	**832592**
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	**832438**
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	**832483**
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	**832498**
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	**832566**
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	**832230**
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl	**832429**
	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	**(01654) 781260**
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	**(01654) 781324**
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	**832093**
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	**832760**
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	**832433**
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	**832093**
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	**832448**
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	**832076**
Plygu'r Papur:	Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyr

'Lleisiau o Lawr y Ffatri'

A oeddech chi, neu a ydych chi'n adnabod unrhyw fenyw a oedd gweithio mewn ffatri diwydiant ysgafn yng Nghymru rhwng tua 1945 ac 1975? Mae Archif Menywod Cymru wedi derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i wneud prosiect hanes llafar sylweddol ar y thema hon ledled Cymru, fel y gallwn sicrhau y caiff yr agwedd bwysig hon ar hanes menywod ei diogelu a'i chadw at y dyfodol.

Oes gennych chi atgofion, storïau a ffotograffau y gallech eu rhannu â ni? Os felly, hoffem glywed oddi wrthych. Rydym eisiau dysgu mwy am brofiadau menywod fu'n gweithio yn y ffatrïoedd hyn. Os gallwch chi ein helpu neu os gwyddoch chi am unrhyw un a all wneud hynny, cysylltwch â ni ar 01792 893410; trwy e-bost catrin@stevens2760.freeserve.co.uk neu trwy lythyr at 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' 10 Bwrw Road, Casllwchwr, Abertawe SA4 6TX os gwelwch yn dda, a gallwn ni drafod ein prosiect yn fanylach â chi.

Yn gywir
Catrin Stevens, (ar ran Archif Menywod Cymru www.womensarchivewales.org)

"Nid oedd i'w gael yng ngwlad y Sais
Ail Dafydd Lloyd a'i felys lais."

Fel yna y canodd y prifardd Tilsli, i'r tenor enwog David Lloyd. A meddai Rhys Meirion amdano " Cyffyrddodd yng nghalonnau ei gynulleidfa, am ei fod yn canu o'r galon, a'r galon honno, ar brydiau, bron a thorri.

Profodd "wae a gwynfyd, nef ac uffern bob yn ail", a'm gobaith yw y bydd y cofiant iddo, yn adrodd hanes y dyn, yn ogystal â hanes y tenor.

Os oes ganddoch chi unrhyw wybodaeth o gwbwl am David Lloyd, neu os wyddoch chi am rywun sydd wedi casglu gwybodaeth amdano – byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Gallwch gysylltu a mi drwy lythyr neu e-bost.
Hywel Gwynfryn, 53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd CF14 1NJ
hywel.gwynfryn@bbc.co.uk

Ffrindiau Cartref Tregerddan

Cynhelir te moethus yn y cartref
Sadwrn, 14 Medi
2 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

AR WERTH

Ar gyrion pentref Tal-y-bont, cae, tua hanner erw, addas iawn ar gyfer cadw poni neu ddwy.
Posibilrwydd efallai i'w rentu.
Os oes diddordeb ffoniwch: 02920575083

Dyddiadur

Medi

14 Ffrindiau Cartref
Tregerddan: 2 Te Moethus

15 Bethel: 10 Gwasaneth Teulu yng ngofal Delyth a Bleddyn Huws 'Cymuned, Cymdogaeth aTheulu'
Nasareth:
Rehoboth: 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant: 11 Boreol Weddi

16 Merched y Wawr: Noson yng ngofal Eleri Roberts a Trefor Pugh yn y Neuadd Goffa

19 Sefydliad y Merched: 'Prynhawn i'r aelodau'

22 Bethel: 5 Gweinidog
Nasareth: 5 (uno yn Bethel)
Rehoboth: 10 Trefniant Lleol
Eglwys Dewi Sant: 11 Gwasanaeth Teuluol

28 Bore Coffi Eglwys Dewi Sant: 10.30 -12 Neuadd Goffa, Tal-y-bont

29 Bethel: 10 Gweinidog (C)
Nasareth: 5 Parch Terry Edwards
Rehoboth: 10 Parch W.J.Edwards
Eglwys Dewi Sant: 10 Gwasanaeth Undebol yn Llanfihangel Genau'r Glyn

Hydref

6 Bethel: (uno yn Nasareth)
Nasareth: 10 Cwrdd Diolchgarwch
Rehoboth: 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant: 11 Cymun Bendigaid

13 Bethel: 10 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant (Undebol)
Nasareth: 10 Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth: 10 Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant: 11 Cymun Bendigaid

EGLWYS DEWI SANT TAL-Y-BONT

Cynhelir Bore Coffi

yn y Neuadd Goffa, Tal-y-bont ar fore Sadwrn, 28 Medi rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch

Tâl mynediad: £2.00;
plant am ddim
Raffl ac amryw o stondinau

Croeso cynnes i bawb

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair a Beryl, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Hydref fydd Rebecca ac Arthur (832093, rebswilliams@yahoo.com), gyda Ceri'n dylunio.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 4 Hydref, a bydd y papur ar werth ar 11 Hydref.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

CLERC Y CYNGOR

Gwahoddir ceisiadau am y swydd (rhan-amser) uchod i ddechrau cyn gynted â phosib.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont SY24 5EN (01970 832231) / gehpengwern@yahoo.co.uk
Dyddiad Cau: 28 Medi 2013

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

papurpawb.com

Pobl a Phethe

Steffan, Cian, Aishah, Rhodri, Amber, Bleddyn, Ela, Kelsey, Maisie

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ym mis Ebrill daeth Anti Shân â wyau hwyaid i mewn i'r Cylch Meithrin. Bu'r plant wrthi'n ofalus yn gosod yr wyau i mewn yn y deorydd. Un bore (ar ôl aros am 28 diwrnod) roedd pawb yn gyffro i gyd wrth i'r wyau ddechrau deor. Erbyn diwedd y bore roedd chwech cyw bach wedi deor. Bu'r cywion yn byw ar ben y gwresogydd am bythefnos nes eu bod yn ddigon cryf i fynd allan. Roedd y plant wrth eu bodd yn eu bwydo a'u gwylio'n tyfu'n fwy bob dydd. Wedi iddynt dyfu'n ddigon mawr aethant i fyw yn ardd y Cylch Meithrin a bu'r hwyaid a'r plant yn cyd-chwarae'n hapus tan wyliau'r haf. Buont yn byw yn Tanllan dros yr haf. Aeth dwy ohonynt i gystadlu yn Sioe Tal-y-bont a do, buont yn ddigon ffodus i ennill y wobr gyntaf. Erbyn hyn maent yn ôl yn byw yn y Cylch ac rydym yn edrych ymlaen yn awr iddynt ddechrau dodwy wyau!

Wendy Fuller a'i Holynyddion
Wedi dros chwarter canrif o wasanaeth, mae Wendy Fuller wedi rhoi'r gorau i'w dwy swydd gyda Phapur Pawb, gan ei bod wedi symud i gartref newydd ym Machynlleth. Bu Wendy'n ddiwyd iawn yn casglu newyddion plwyf Ysguborycoed ar gyfer y papur a hi hefyd oedd ein swyddog hysbysebion. Roedd Wendy'n hynod ddibynadwy a thrylwyr yn y ddwy swydd. Mae'r papur yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwasanaeth ac yn dymuno'n dda iddi hi a Chris yn eu cartref newydd.

Gohebydd newydd Eglwysfach/Ffwrnais yw Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654-781324)a gobeithio y caiff bob cymorth gan drigolion yr ardal wrth iddi gasglu newyddion y plwyf.

Y swyddog hysbysebion newydd yw Trish Huws, Llwyn Onn, Pentrebach, Tal-y-bont (832076) a dymunwn yn dda i hithau yn y swydd allweddol hon.

Diolch
Wedi blynyddoedd lawer o wasanaeth mae Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont, yn rhoi gorau i ddosbarthu Papur Pawb i siopau Aberystwyth a'r cylch. Mae Cymdeithas Papur Pawb yn ddiolchgar iawn am ei chyfraniad. Y dosbarthwr newydd yw John Leeding a dymunwn yn dda iddo yn y gwaith angenrheidiol hwn.

Dymuniadau Gorau
Pob dymuniad da i Marc a Rebecca Thomas, a'u meibion Samuel a Benjamin, sydd wedi symud yn ystod yr haf o Cerrig Mawr, Tal-y-bont, i'w cartref newydd ym Mhontarfynach. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno. Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd am wellhad buan i Marc, a gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, yn ddiweddar.

Cydymdeimlad
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr James (Jim) Owen, Hengoed, Bont-goch. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â'r teulu yn eu colled. Roedd yn ŵr annwyl a bonheddig, a byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn Amlosgfa Aberystwyth ar 28 Awst. Coffa da amdano.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau enfawr i Gwilym Rowbottom, Dyffryn, Tre Taliesin ar wneud mor wych yn ei arholiadau eleni. Cafodd 4 A* yn ogystal â llwyddo ym Magloriaeth Cymru ac mae'n debyg mai ei ganlyniadau ef oedd y rhai gorau yn Ysgol Penglais eleni. Mae'n mynd i weithio ym Mryste gyda'r cwmni peirianneg Babcock (o dan gynllun Blwyddyn mewn Diwydiant) cyn mynd i Brifysgol Caergrawnt y flwyddyn nesa. Pob lwc i'r dyfodol Gwil!

Cerddorion Tal-y-bont
Llongyfarchiadau i Bedwyr Siencyn, Tanrallt a Tomos Jenkins, Ynysgreigiog, y ddau wedi pasio Gradd 4 ar yr iwffoniwm yn ddiweddar. Mae'r ddau'n ddisgyblion i Mr Allan Philips.

Hefyd, llongyfarchiadau i Betsan Siencyn, Tanrallt am basio arholiad piano Gradd 3 ym mis Gorffennaf ac i Catrin Huws, Henllan am basio arholiad Gradd 4 ar y delyn yn ddiweddar.

Brysiwch wella
Brysiwch wella Mai Leeding, Glannant ac Avril Bond, Brodawel, Tre Taliesin sydd ddim wedi bod yn hwylus yn ddiweddar.

Symud i fyw
Pob dymuniad da i Haydn a Phyllis Ellis, sydd wedi symud o Manteg, Tre Taliesin, i fyw i Lanilar. Byddwn yn gweld eu heisiau yma.

Croeso i Bont-goch
Estynnwn groeso caredig i'n plith i'r teuluoedd hynny a ddaeth i fyw i Dan-y-deri, Erw Las a Phenrow yn ddiweddar.

Pen-blwydd Hapus
Pen-blwydd Hapus Iawn a dymuniadau gorau i Enid Williams, gynt o Frondirion, Tre Taliesin, a fydd yn 100 oed ar 21 Medi eleni. Mae Enid bellach yn preswylio yng nghartref Tregerddan.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Emyr Jones, Maesnant, Tal-y-bont gynt, am dderbyn medal yn y Sioe yn Llanelwedd eleni am weithio mewn amaethyddiaeth am dros 50 o flynyddoedd.

Llwybr Celf Ceredigion
Fel rhan o ddigwyddiadau Llwybr Celf Ceredigion, braf oedd cael y cyfle yn ystod y mis i ymweld â stiwdio agored Jon Evans a Jen Drage yn Hen Ysgol yr Eglwys, Bont-goch. Yn ogystal a chyfle i weld gwaith celf o safon, roedd hi'n gyfle hefyd i werthfawrogi'r gwaith gwych a wnaethpwyd ar adfer yr adeilad. Gellid ymweld â'r stiwdio ar unrhyw adeg drwy wneud apwyntiad ymlaen llaw a cheir manylion pellach am waith Jon a Jen ar wefan **www.peaceofmined.co.uk/**

Er nad oedd Ruth Jên yn rhan o'r llwybr celf eleni, mae'n bwriadu cynnal cyfres o nosweithiau 'stiwdio agored' yn ystod misoedd y gaeaf hyd at y Nadolig, lle bydd cyfle i chi alw yn y tŷ i weld ystod o waith newydd. Edrychwch mas am bosteri yn ffenest Yr Hen Siop 'Sgidiau neu yn y rhifynnau nesa o Bapur Pawb am ddyddiadau.

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Dilwyn a Carys, Llys Eleri, Tal-y-bont ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd mab, Osian Gwern i'w merch, Sioned ac Alun yng Nghaerdydd ar Mehefin 28ain, brawd bach i Iestyn Myrddin, a chefnder i Mared Alaw. Pob dymuniad da iddynt.



Priodas Elen a Neil

Ddydd Sadwrn 27 Gorffennaf yn Eglwys Sant Wilfred, Efrog, priodwyd Elen Bray, Tir Na Nog, Tal-y-bont, â Neil Withycombe sy'n dod yn wreiddiol o Cumbria. Cynhaliwyd y wledd briodas yn yr Hospitium, Gerddi'r Amgueddfa, a chafwyd amser arbennig iawn ar ddiwrnod braf o haf. Dymunwn bob hapusrwydd i Elen a Neil, sydd wedi ymgartrefu yn ninas Efrog lle mae Elen yn gweithio fel gwyddonydd a Neil fel fferyllydd.

Priodas Jan a Steve

Ar ddydd Sadwrn 20 Gorffennaf yng Nghapel Nasareth, Tal-y-bont gyda'r Parch Wynne Davies yn gweinyddu, priodwyd Jan Roberts, 86 Maes-y-deri,Tal-y-bont â Steve Roberts, Caernarfon. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth a threuliwyd eu mis mêl yn Lanzarote.

Llun gan Richard Law

Ysgol Llangynfelyn

Mabolgampau

Taith Ambiwlans Awyr Cymru

Trip Ysgol

Noddwyr

Dyma kit ymarfer newydd Talybont dan 12 a noddwyd gan Spar Tal-y-bont. Diolch i Heulwen ac Elfyn am eu cefnogaeth.

Ysgol Llangynfelyn

Croeso a ffarwelio

Croeso mawr i Alice Groves i Ysgol Llangynfelyn. Mae Alice wedi dechrau gyda ni yn y Dosbarth Derbyn. Ffarweliwyd a'n dau ddisgybl Blwyddyn 6, sef Ffion Hicks a Seren Kiersch. Rydym yn siŵr fod y ddau wedi ymgartrefi'n gyflym yn Ysgol Penweddig. Rydym hefyd yn ffarwelio a Kaz sydd wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd yn ein Clwb Brecwast. Dymunwn bob dymuniadau da iddi yn y dyfodol.

Mabolgampau

Cafwyd brynhawn bywiog iawn ar ddiwedd tymor yr haf gyda'r ddau dîm – Cletwr a Mochno yn cystadlu'n frwd iawn mewn amryw o gystadlaethau. Ar ddiwedd y dydd Tîm Cletwr oedd yn llwyddiannus. Capten Mochno oedd Ffion Hicks a chapten Cletwr oedd Seren Kiersch. Enillwyr y pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd Jasmine Berry ac Elijah Girardi ac yn y Cyfnod Sylfaen yr enillwyr oedd Iwan Foster-Leslie a Katy Indeka.

Taith Ambiwlans Awyr Cymru

Daeth criw o gerddwyr heibio'r ysgol ar eu taith ar hyd yr arfordir i godi arian tuag at apêl Ambiwlans Awyr Cymru. Roedd hi'n brynhawn crasboeth ac ynghanol y bwrlwm daeth Mistar Urdd heibio hefyd i ddweud helo wrth y plant. Cafodd y plant gyfle i siarad ag Iolo Williams a rhoddwyd cyfraniad tuag at yr apêl.

Barbeciw

Cafwyd ein barbeciw blynyddol ar ôl ein mabolgampau. Diolchwn yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r noson. Codwyd dros £750 ar y noson a diolchwn yn enfawr i Sarah Mumford o Fanc Barclays, Machynlleth am ei chymorth gan y byddwn yn derbyn £750 ychwanegol gan Banc Barclays o dan y cynllun nawdd punt am bunt.

Trip Ysgol

Aeth pawb yn yr ysgol i'r 'Silver Mine Experience' ym Mhonterwyd ar ein trip blynyddol. Cafwyd diwrnod braf iawn yn chwilio am aur, yn mynd o dan ddaear gyda'r corachod a chwarae yn y goedwig a'r nant. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y bws.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Roedd yr Eglwys yn llawn eto eleni ar gyfer ein digwyddiad blynyddol o Gaws, Gwin a Chân ar ddiwedd Mehefin. Diolch i Gôr Gorau Glas, Ensemble Taliesin, Alys, Caoimhe Melangell ag Oisín Lludd am ein diddanu. Diolch i Mrs Carys Briddon am lywyddu ac i Cynan Llwyd am arwain y noson. Dymunwn yn dda i Cynan yn dilyn ei briodas â Rachel ar 30 Awst. Ef sydd wedi cynnal ein gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, a byddwn yn gweld ei eisiau wrth iddo ymgymryd â chwrs gradd doethur ym Mhrifysgol Caerdydd yn yr Hydref. Dymunwn yn dda iddo ef a'i briod, a diolchwn iddo am ei wasanaeth clodwiw. Cyflwynwyd rhodd fechan iddo ar ran yr Eglwys fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.

Pobl a Phethe

Croeso
Croeso i Dr David Moore sydd wedi symud i fyw i Tŷ Gwyn, Tal-y-bont yn ddiweddar. Mae David yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ac yn arbenigwr ar yr Oesoedd Canol yng Nghymru.

Genedigaeth
Ganwyd merch fach, Elliw Swyn i Garmon a Hannah Gruffudd, Aberystwyth ac wyres i Robat ac Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont.

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Dwynwen Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont ar ei dyweddiad a Damon Fenacci o'r Swistir.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Gwynfor Thomas, Maes-y-deri, Tal-y-bont, ar golli ei fam, sef Elizabeth Mary Jones, Godre'r Garn, Talgarreg ac â Michael a Mathew ar golli eu mamgu. Roedd Mrs Jones yn weddw i'r diweddar Eirwyn Pontshân ac mi fuont yn byw yn Nhroed-rhiw-fedwen, Tre Taliesin ar un adeg.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Andy Taylor, Bro Ceulan, Tal-y-bont ym mis Gorffennaf a chydymdeimlwn yn fawr âg Alison, Cian a Stuart.

Yn ddiweddar bu farw y Doctor David Trevena yn Aberystwyth. Roedd David yn enedigol o Dal-y-bont ac yn un o blant disglair y pentre. Bu'n byw yn Aberystwyth am flynyddoedd ac yn ddarlithydd Ffiseg yn y Brifysgol.

Cydymdeimlwn â Mrs Betty Roberts a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith ac ewythr sef Mr Eric Roberts, Comins Coch, gynt o'r Felin, Tre'r Ddôl.

Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau i Ben Bradley, Maes-y-deri, Tal-y-bont ar basio ei brawf gyrru.

Brysiwch wella
Mae Anthony Southgte, Dan y Dderwen, Bob Southgate, Maes y Deri, Tal-y-bont a Catrin Mai, gynt o Tŷ Gwyn, Tal-y-bont wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar a Trevor Evans, 14 Maes-y-deri wedi bod yn yr ysbyty yng Nghaerdydd

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Gwion Evans, Tanllan, Llangynfelyn, Hefin Evans, Neuadd Fawr, Elfed Jones, Berthlwyd a Calum Hughes, Tŷ Mawr Ceulan, Tal-y-bont, ar ddathlu eu pen blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Hefin a Gwion ar basio eu prawf gyrru hefyd.

Llongyfarchiadau i Elgan Evans, Pantcoch, Tal-y-bont ar gael ei eithol yn Is-Gadeirydd CFFI Ceredigion am y tymor 2013/14 a dymuniadau gorau iddo wrth y gwaith.

Sioeau'r Haf
Bu nifer o gystadleuwyr lleol yn llwyddiannus yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ac yn sioeau lleol yr haf. Llongyfarchiadau i bawb ar eu camp.

Eisteddfota
Cafodd Sam Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont y 3edd wobr yn yr Unawd Sioe Gerdd dan 19 oed ym Mhrifwyl Dinbych ddechrau mis Awst. Pob dymuniad da iddo yng Ngholeg Cerdd a Drama, Mount View, Guilford.

Symud tŷ
Pob hwyl i'r canlynol sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar. I Iestyn, Catrin, Glain a Miriam sydd wedi symud i fyw i Lôn Glanfred, Llandre; Lisa Southgate, Dafydd Williams a Harri Wyn sydd wedi symud i fyw i rif 7 Maes-y-deri; i Paul a Claire Drakeley, Milo ac Esmie sydd wedi dod i fyw i Swyn Ceulan, Maes-y-deri ac i Peter ac Elizabeth Anne Merriman sydd wedi symud i fyw i Gwynfa, Tal-y-bont. Yn ogystal ganwyd efeilliaid iddynt sef Eiry a Fflur. Rydym ar ddeall mai dyma'r 8fed pâr o efeilliaid o dan 12 oed, sy'n byw yn Nhal-y-bont ar hyn o bryd.

Dathliadau yn Nhal-y-bont
Llongyfarchiadau i Dorothy a John Williams, Bryngryffty ar ddathlu eu Priodas Aur ar y 3ydd Awst. Hefyd i Dorothy ac Anthony Green, Pantglas ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

Cafodd Aled Jenkins, 7 Dôl Pistyll; Dylan Morgan, 1 Pentrebach; Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw; Tegwen Jones, Glasgoed ben-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Gobeitho fod Tegwen a'r teulu wedi mwynhau y dathlu yng Ngwesty Cymru yn Aberystwyth.

Pobl a Phethe

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Cathryn a Cynrig Williams, Minygors, Tre Taliesin ar enedigaeth merch fach Cadi Wen Lloyd Williams ac i dadcu a mamgu sef Simon a Monica, Tŷ Newydd, Bontgoch.

Ymddeol
Ymddeoliad hapus i Alun Morgan (Mogs), Tal-y-bont sydd wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth i gwmni Arriva (Crosville gynt).

Priodas Rosalie a Sion
Llongyfarchiadau gwresog a phob dymuniad da i Rosalie Metcalfe, Nirvana, Tre Taliesin a Sion Davies, Pisgah a briododd ar 15 Mehefin, yn Eglwys y Santes Fair, Abaty Ystrad Fflur. Cynhaliwyd gwledd y briodas yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron, a threuliwyd eu mis mêl ym Mecsico. Cafwyd amser wrth eu boddau a hoffent ddiolch i bawb am ei garedigrwydd ar y diwrnod.

Priodas Rhiannon ac Andy
Llongyfarchiadau i Rhiannon, Moelgolomen gynt ar ei phriodas ag Andy Hutchinson o Ogledd Swydd Efrog ar 20 o Orffennaf. Maent wedi ymgartrefu ym Mhengwmryn, Capel Bangor.

Diolch
Derbyniodd Papur Pawb rodd hael gan Gylch Cinio Aberystwyth yn ddiweddar. Mae'r papur yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad hwn at yr achos.

Torri ei goes
Cofion at Grant Mayhew, Tre'r Ddôl sydd wedi torri ei goes yn ddiweddar.

Cynllun Parc Chwarae Bont-goch
Fel rhan o ddatblygiadau arfaethedig Dŵr Cymru, mae'r pentref wedi derbyn cynnig hael o ddarn o dir gan Mr Gareth Evans, Sŵn-y-ffrwd ar gyfer parc chwarae a man cynnal digwyddiadau cymdeithasol. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus cychwynnol i drafod y mater ar 1 Awst, pan ddaeth tyrfa dda ynghyd yn Eglwys St. Pedr. Gyda chydweithrediad y Cyngor Cymuned gobeithir symud ymlaen i wireddu'r cynllun hwn.

Swyddi
Pob hwyl i Kirsty Evans, Elgar, Tal-y-bont sydd yn dechrau yn ei swydd fel athrawes chwaraeon yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, Abertawe; i Nia Davies, Tiraddo, Tre'r Ddôl ar ei swydd yn Garej Bangor, Capel Bangor; i Manon Jenkins, Dôl Werdd, Ffwrnais ar ei swydd nyrsio yn Abertawe; i Ruth Northam, Drws-y-coed, Bont-goch sydd wedi cael swydd fel milfeddyg yn Llandysul; i Claire Watkin, Heulfor, Staylittle, sydd wedi cael swydd gyda chwmni Atebol ac i Nia Edwards, merch Peter a Gaynor, ac wyres i Tegwen a Goronwy Jones, Glasgoed sydd wedi cael swydd fel deintydd yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Llongyfarchion
Llongyfarchiadau i holl ieuenctid yr ardal sydd wedi gwneud yn dda yn eu arholiadau TGAU a Lefel A a phob hwyl i bawb sydd yn mynd i'r colegau a'r prifysgolion.

Prif fachgen Penweddig
Llongyfarchiadau i Eilir Huws, Henllan, Tal-y-bont ar gael ei ddewis yn brif fachgen yr ysgol am 2013-2014.

David Jones, Bwlchyddwyallt, Llywydd y Rali

Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion

CFFI Tal-y-bont
Bu 2013 yn flwyddyn tu hwnt o brysur i'r Clwb ac wedi'r hir aros cynhaliwyd Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn Nhal-y-bont ar ddydd Sadwrn, 15 Mehefin a hynny am y tro cyntaf ers ugain mlynedd. O gofio nad oedd y rhagolygon tywydd yn tu hwnt o ffafriol, a'r rhan helaeth o Geredigion yn dioddef glaw trwm yn ystod y bore roedd lwc o'n hochor ni a cadwodd y tywydd garw draw. Cafwyd gwledd o gystadlu brwd a lliwgar ar Fferm Berthlwyd ymysg clybiau'r Sir trwy gydol y dydd a daeth tyrfa luosog yno i ymuno yn yr hwyl. Llywydd y dydd oedd David Jones, Bwlchyddwyallt, Tal-y-bont, un o gyn aelodau gweithgar y Clwb a gafodd yr anrhydedd o goroni Brenhines newydd y Sir, Mererid Davies. Thema'r cystadlu oedd 'Y Celtiaid Ddoe a Heddiw' a llongyfarchiadau mawr i Glwb Llanwenog ar ddod i'r brig eleni a phob lwc gyda'r paratoi at flwyddyn nesaf. Diolch o galon i David ac Elspeth Jones a'r teulu am ein croesawu nôl unwaith yn rhagor ac am eu cefnogaeth brwd. Yn goron ar weithgareddau'r dydd cynhaliwyd Dawns y Rali lwyddiannus ar Fferm Neuadd Fawr yng nghwmni'r grŵp Newshan a'r DJ Huw Bry. Diolch i David a Jennifer Evans a'r teulu am eu cefnogaeth a'r croeso cynnes.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Rali CFfI Ceredigion yng nghapel Bethel ar y nos Sul ganlynol, 16 Mehefin dan arweiniad deheuig Peter Leggett a chyfeiliant medrus Catrin Jenkins. Llywydd y noson oedd Eirwen Hughes, Pencwm a daeth cynulleidfa dda ynghyd i gyd ganu ac i wrando ar yr artisitiaid sef Elen Thomas, aelodau'r Clwb ac aelodau Ysgol Sul, Bethel. Cafwyd gwledd o fwyd yn y Neuadd Goffa yn dilyn y Gymanfa i gloi noson a phenwythnos gofiadwy.

Dymuna aelodau'r Clwb ddiolch i bawb fu'n eu helpu gyda threfnu Rali 2013. Gobeithio na fydd rhaid aros ugain mlynedd arall cyn gweld y Rali flynyddol yn dychwelyd i Dal-y-bont!

Tîm tynnu'r gelyn Tal-y-bont

Merched y Wawr

Ar 15 Gorffennaf, cymerodd cangen Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch, ran mewn gweithgaredd cenedlaethol y mudiad, sef cerdded rhan o arfordir Cymru. Penderfynnodd y gangen i gerdded ar hyd glan y môr y Borth ar noson fendigedig o haf. Yna cafwyd paned o goffi a diod yng ngwesty'r Fictoria cyn troi am adre (yn ein ceir!)

ON Ymddiheuriadau i'r dair aelod a ddaeth gyda ni hefyd ond na dynnwyd eu llun!

Model

Llongyfarchiadau i Wyn Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont, sydd wedi cymryd rhan yn ddiweddar mewn sesiwn tynnu lluniau gyda'r cwmni enwog *House of Fraser* ar gyfer Wythnos Ffasiwn Llundain. Ar hyn o bryd, mae Wyn yn gweithio ym Morrisons yn Aberystwyth, ond yn fuan iawn bydd yn modelu dillad cynllunwyr mewn dwy sioe ffasiwn yn Llundain. Pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Ysgol Sul Bethel

Daeth gweithgareddau'r Ysgol Sul i ben dros wyliau'r haf gyda gwasanaeth arbennig yng nghapel Bethesda, Tŷ Nant ar 14 Gorffennaf. Thema'r gwasanaeth eleni oedd 'Perthyn' a chafwyd amrywiaeth o eitemau gan aelodau'r Ysgol Sul ynghyd â'r rhieni. Gwnaethpwyd casgliad tuag at 'Cerddwn Ymlaen' er budd Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod y gwasanaeth.

Diolch i'r plant a'r ieuenctid am eu ffyddlondeb a'u brwdfrydedd, i'r tim o wirfoddolwyr sydd yn paratoi o Sul i Sul ac i'r rhieni am eu cefnogaeth i Ysgol Sul Bethel.
Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau a buasem wrth ein boddau yn croesawu aelodau newydd.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

O blith y pynciau sy'n codi'n mewn gohebiaeth ac mewn cymorthfeydd ar draws y sir, mae safon y gwasanaeth band-llydan yn sicr yn un sy'n codi'n aml. Mae cyflymder y cysylltiad yn broblem barhaus i nifer o bobl sy'n byw yn bell o gyfnewidfa ffôn, ac hefyd i nifer o bentrefi. Yn ddiweddar mae pobl wedi cysylltu gyda mi o Beulah, Bryngwyn, Goginan, Cwmrheidol, Llanfihangel-y-Creuddyn, Llanwnnen, Llanwenog a Bwlch-llan. Rwy' wedi bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu, ac hefyd cefais gyfarfod yn ddiweddar gydag Ann Beynon, pennaeth cwmni BT yng Nghymru. Esboniodd hithau rai agweddau o'r cynlluniau sydd gan y cwmni i gyflwyno'r gwasanaeth newydd cyflym dros y ddwy flynedd nesa. Fydd hi fawr o werth i nifer o bobl Ceredigion i gael gwifrau ffeibr newydd i'r gyfnewidfa os nad oes gwelliannau i'r gwifrau i'r tŷ. Cefais sicrwydd fod y cwmni yn mynd i gysylltu tai yn uniongyrchol a'r system newydd mewn rhai ardaloedd, ond bydd angen cadw golwg agos ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw Ceredigion yn colli allan. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os oes gennych broblemau band-llydan yn eich ardal.

Mae'r rhyngrwyd mor bwysig i nifer o fusnesau bach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac mae'n braf gweld fod nifer o fusnesau yn y sector yma wedi cael blwyddyn tipyn gwell eleni. Mae cwmnïau bwyd bychan hefyd yn bwysig i economi Ceredigion, ac mi ymwelais â gwyliau bwyd ffyniannus Aberteifi a Llambed yr haf yma. Hefyd cadeiriais fforwm ar y diwydiant bwyd a drefnwyd yn Aberystwyth gan Sefydliad y Merched; roedd yn ddiddorol clywed nifer o syniadau am sut i hybu cynnyrch lleol.

Gan orffen ar newyddion da, mi sgwennais yn y golofn hon yn y gwanwyn am sut oedd rhai grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfundrefn ddeisebau'r Cynulliad. Wel, cafodd Blaenporth lwyddiant yn ddiweddar, gyda phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gael cyfyngiad cyflymder newydd ar y briffordd. Llongyfarchiadau i'r cyngor cymuned lleol a'r rheiny fu'n ymgyrchu mor ddiwyd.

Bistro
Gannets
Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor
• Petrol a Diesel
• Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
• Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
• Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
• Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Sioe Tal-y-bont

Ar ddydd Sadwrn braf y 24 Awst eleni cynhaliwyd sioe lwyddiannus arall ar Gaeau'r Llew Du, Tal-y-bont. Bu cystadlu brwd ym mhob adran gyda'r nifer yn nosbarthiadau'r defaid wedi croesi'r 400 a 109 yn adran y Dofednod. Cafwyd dwy adran ychwanegol yn adran y defaid sef Defaid Zwartbles a Defaid Mynydd Eraill ac roedd cynnydd yn adran y geifr a'r sioe gŵn. Daeth y cystadlu i ben gyda hwyl y Rasys Cŵn ddiwedd y prynhawn.

Yn ôl yr arfer bu cystadlu niferus yn y Babell Fawr, gyda 160 o arddangosiadau yn fwy na'r llynedd. Roedd 52 eitem yn yr adran Ffotograffiaeth yn unig a phawb yn canmol safon uchel y cystadlu ym mhob dosbarth.

Llywyddion y sioe eleni oedd David ac Elspeth Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont. Bu haf 2013 yn gofiadwy iawn i'r ddau gyda Rali'r CFFI yn cael ei chynnal ym Merthlwyd a'r anrhydedd o fod yn Llywyddion y Sioe.

Diolch i'r Pwyllgor dan gadeiryddiaeth Menna Morgan, Dôl Pistyll, Tal-y-bont a'r holl wirfoddolwyr am sicrhau sioe ardderchog arall.

CANLYNIADAU'R BABELL

ADRAN CYNNYRCH FFERM
Gwair dôl
1. Elfed Jones, Berthlwyd
2. Ynyr Siencyn, Tanrallt
3. Bedwyr Siencyn, Tanrallt
Gwair hadau
1. Dylan Morgan, Alltgoch

ADRAN CYNNYRCH GARDD
6 Sialotsyn coch (agored)
3. Claire Fowler, Bron y Gân
3 Corbwmpen (agored)
3. Mai Leeding, Taliesin
Casgliad o berlysiau
1. Helen Hicks, Llangynfelyn
2. Ros Mathews, Awel y Môr
3. Elspeth Jones, Berthlwyd
3 Corbwmpen
1. Ros Mathews
2. Helen Hicks
3. Elizabeth Evans, Coed yr Eos, Taliesin
4 Taten
1. a 2. Helen Hicks
3. John Foster, Bristol House
3 Coesyn riwbob
1. Mai Leeding
2. Helen Hicks
3. Elfed Jones
2 Letysen
1. Elfed Jones
4 Ffa Dringo
1. Geraint Lewis, Tre'r-ddôl
2. Jenny Fothergill
3. John Foster
Casgliad ar hambwrdd
1. Helen Hicks
2. Claire Fowler
3. Geraint Lewis

FFRWYTHAU
3 Afal Bwyta
2. Elizabeth Evans
3. Billy Swanson, Dôl Pistyll
3 Afal Coginio
1. a 3. Geraint Lewis
2. Rachel Jones
3 Peren fwyta
1. Elizabeth Evans
2. Elfed Jones
6 Damson
1. a 2. Elfed Jones
Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs Astley, Y Gorlan, am yr arddangosfa orau yn yr adran ffrwythau: Geraint Lewis, Tre'r-ddôl

ADRAN BLODAU
Cactws
3. John Foster
Planhigyn Dail y Tŷ
2. Mai Leeding
Planhigyn tŷ yn ei flodau
1. Liz Roberts, Maesyderi
3. Nicola Myring-Thomas, Dôl Pistyll
Ffiwsia
3. John Palsu, Hyfrydle
Gardd fach ar blat
3. Ffion Hicks, Llangynfelyn
Casgliad o flodau gwyllt
1. Ffion Hicks
2. Dylan Wyn Benjamin, Dôl Pistyll
Blodyn twll botwm
1. Liz Roberts
Tusw ysgwydd
1. Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin
Basged grog
1. Mai Leeding
2. Craig Swanson, Dôl Pistyll
3. Nicola Myring-Thomas
Blwch ffenestr
2. Mai Leeding
3. Nicola Myring-Thomas
Cwpan Coffa Mrs Miriam Roberts yn rhoddedig gan y plant am y marciau uchaf yn adran y blodau i drigolion plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn: Liz Roberts, merch-yng-nghyfraith Mrs Miriam Roberts
Cwpan yn rhoddedig gan Mrs Tegwen Jones, Glasgoed am yr arddangosfa orau yn adran planhigion i'r tŷ: Liz Roberts
Cwpan Coffa Mr Ieuan Evans, Erwau'r Gors am y blwch ffenestr orau, enillwyd gan ei ferch Mrs Mai Leeding

COGINIO
Cacen Dundee
2. Heulwen Astley, Y Gorlan
4 Cacen Gwpan
3. Liz Roberts
Cacen ffrwythau
1. Janet Jones, Llwynglas
3. Heulwen Astley
Sbwng Victoria
3. Janet Jones
Cacen Lemwn
2. Rachael Jones, Cerrigcyranau Isaf
3. Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch
Cacen Foron
2. Liz Roberts
3. Janet Jones
Cacen Goffi
3. Hannah Bolton, Gleanings
Bara Brith
2. Janet Evans, Cefngweiriog, Taliesin
3. Janet Jones
Torth Gartref
1. Elspeth Jones, Berthlwyd
2. Jane Bailey
4 Sgon Gaws
1. Jane Bailey
6 Pice ar y maen
1. a 2. Betsan Siencyn, Tanrallt
3. Marion Evans, Tynant
Pei Meringue Lemwn
1. Janet Evans
2. a 3. Marion Evans
Cacen gaws
1. a 3. Carol Davies, Taliesin
6 Leicec
3. Lois Jones, Gellimanwydd
4 Rholyn Selsig
1. Janet Evans
3. Carol Davies
Fy hoff gacen
3. Amber Fowler, Bron y Gân
Fflan Sawrus
2. Valerie Deauville, Dôl Pistyll
Tarten ffrwythau
1. a 3. Marion Evans
4 Fflapjack
3. Siwan Haf Jones, Pantcoch
Fy hoff bwdin
1. Jane Bailey
2. Nick Bryan, Minafon
Cacen i wrywod
1. Nick Bryan, Minafon
3. Mick Fothergill, Minafon
Cwpan yn rhoddedig gan deulu Berthlwyd, Tal-y-bont am yr arddangosfa orau yn yr adran Goginio: Janet Evans, Cefngweiriog

TREFNU BLODAU
Lawr llwybr yr ardd
1. Christine Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r-ddôl
Trysor Bach
2. Liz Roberts
Dywediad Doeth
1. Christine Gilbert
Arddangosyn Bach
1. Christine Gilbert
Hyfrydwch Natur
1. Christine Gilbert
Arddangosyn ar Stondin Teisen
1. Beti Wyn Davies
3. Nicola Myring-Thomas
Arddangosyn mewn basged
1. Beti Wyn Davies
Pridd wedi Tanio
1. Lois Jones, Gellimanwydd
2. Jane Bailey
3. Medi James, Llanerch
Enillwyd cwpan yn rhoddedig gan ffrind a chwpan coffa Mrs B. Davies, Y Fferyllfa gan Christine Gilbert ac fe rannodd cwpan y Llew Du yn rhoddedig gan Catrin a Sion am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran gyda Donald Morgan, Llanrhystud.
Enillwyd Cwpan Coffa Miss Nesta Evans am yr arddangosfa orau i ddechreuwyr gan Lois Jones.
Beti Wyn Davies enillodd gwpan Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a chwpan yn rhoddedig gan bwyllgor y Sioe.

CYFFEITHIAU
Jam ffrwythau meddal
2. Janet Jones
Jam ffrwyth a charreg
1. a 2. Carol Davies
Jeli ffrwythau
2. S.E. Lewis, York House, Tre'r-ddôl
Ceuled lemwn
2. S.E. Lewis
3. Ellyw Jenkins, Tanrallt
Picl cymysg
1. S.E. Lewis
3. Janet Jones
Jeli Mintis
1. S.E. Lewis

Cyffaith Anarferol
2. Janet Jones
3. S.E. Lewis
Tri chyffaith i'w rhoi fel anrheg
1. Ellyw Jenkins
2. Jane Bailey
Dysgl fach o golslo
1. a 2. Marion Evans
3. Carol Davies
Dysgl fach o baté
2. Jane Bailey
3. Carol Davies
Cordial
1. S.E. Lewis

CYNNYRCH LLAETHDY
4 ŵy brown
2. Margaret Jenkins, Tyngraig
4 ŵy gwyn
3. Margaret Jenkins
4 ŵy bantam
1. Margaret Jenkins
4 ŵy hwyad
2. Ffion Hicks
Cwpan coffa Mr W.B. Evans, Tanyfoel, Bow Street am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran Cynnyrch Llaethdy: Margaret Jenkins, Tyngraig

MÊL
Cacen o gŵyr gwenyn
2. Richard Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin

GWAITH LLAW
Sampler
1. Betty Jenkins, Carregcadwgan
2. Dilys Morgan, Alltgoch
Croesbwyth
1. Dilys Morgan
Clustog
1. Dilys Morgan
2. Betty Jenkins
Eitem mewn cotwm crosio
1. a 2. Dilys Morgan
Gwaith cynfas
1. Josie Smith, Dovey Villa, Taliesin
2. a 3. Betty Jenkins
Addurn Nadolig
1. a 2. Dilys Morgan
Gwaith Cyfrif
1. a 3. Betty Jenkins
2. Dilys Morgan
Cerdyn Cyfarch
1. Dilys Morgan
Cwpan yn rhoddedig gan Bwythau'r Sgubor gynt, Rhydypennau am yr arddangosfa orau: Betty Jenkins
Cwpan yn rhoddedig gan Deulu Brongenau, Llandre am y nifer uchaf o bwyntiau: Dilys Morgan

CREFFTAU
Eitem o waith coed
1. Michael Deauville, Dôl Pistyll
Ffiol Ffrwythau
1. Jo Fothergill
Crochenwaith
2. Ruth Jên, Yr hen siop sgidiau
Paentiad yn gyfyngedig i drigolion plwyfi Ceulanamaesmawr a Llangynfelyn
1. J. Regan, Taliesin
2. Caroline Maddison, Hen Gapel Ceulan
3. J. Haynes, Cefn Cottage, Tal-y-bont
Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs Gwyn Evans, Tancoed, Llanilar am yr arddangosfa orau yn yr adran grefft: Michael Deauville, Dôl Pistyll

FFOTOGRAFFIAETH
Blodau
1. Beti Wyn Davies
Golygfa Wledig
1. a 2. Beti Wyn Davies
Ar fy ngwyliau
2. Beti Wyn Davies
Adeilad Lleol
1. a 3. Beti Wyn Davies
Cwpan yn rhoddedig gan Miss Ann James, Penbanc, Penrhyn-coch am yr arddangosfa orau yn yr adran ffotograffiaeth: Beti Wyn Davies

PLANT YSGOL GYNRADD
Dosbarth Meithrin
1. Llew Schiavone
2. Aishah
3. Amlin
Dosbarth Derbyn
1. Dylan Kerridge
2. Ryan Evans
3. Celsee Southgate
Blwyddyn 1 a 2
1. Deio
2. Violet Jordan
3. Beca
Blwyddyn 3 a 4
1. Glain Davies
2. Emily Bradley
3. Harvey Brown
Blwyddyn 5 a 6
1. Owen Rhys Jones
2. Ffion Hicks
3. Ioan Morris

YSGOL UWCHRADD
2 Bap Sawrus
1. Mared Lloyd Jones
4 Myffin
1. Alys Jones, Tŷ'r Banc, Bontgoch
Ffotograff
1. Ffion Jones, Berthlwyd

CLYBIAU FFERMWYR IFAINC
4 Cacen Gwpan
1. a 2. Siwan Hâf Jones, Pantcoch, Tal-y-bont
Fy hoff swper
1. Siwan Hâf Jones
4 Flapjack
1. a 3. Siwan Hâf Jones
Gwaith coed
1. a 2. Gareth Jenkins, Ynyseidiol, Eglwysfach
Gwaith metel
2. a 3. Rhydian Evans, Neuaddfawr
Gwaith llaw
1. a 2. Rhydian Evans
Cwpan yn rhoddedig gan deulu Pwllglas am y nifer uchaf o bwyntiau yn adran C.Ff.I.: Siwan Hâf Jones
Cwpan yn rhoddedig gan Aeron Edwards am yr arddangosfa orau yn adran C.Ff.I.: Gareth Jenkins

CEFFYLAU MERLOD MYNYDD CYMREIG
Stalwyn
1. Ann Basnett, Cae'r Gôg, Bontgoch

CLYBIAU MARCHOGAETH
Merlod Marchogaeth (dosbarth lleol)
1. Osian Penri Dance, Yr Hen Felin, Tal-y-bont

CEFFYLAU GWEDD
Caseg Neu Geffyl
2. Paul Fleming, Penygraig
Ebol,Eboles neu Geffyl
2. Paul Fleming

GWARTHEG DA DUON CYMREIG
Llo Tarw
2. Huw Jones, Llety Cynnes
Buwch Gyflo
2. Huw Jones
Heffer
2. Trefor Jones, Cwmcae
Heffer Iau
3. Trefor Jones

GWARTHEG HOLSTEIN
Heffer
2. Watkin, Henllys
Heffer Gyflo
1. Watkin
Heffer Odro
1. Watkin
Buwch Odro
2. Watkin
Pâr o wartheg
1. Watkin
Pencampwr: Watkin

TYWYSYDD IFANC
Dan 12: Carys Watkin, Henllys
12-16 oed: Llyr Jones, Llety Cynnes

DA BÎFF
Llo a aned yn 2013
Huw Jones, Llety Cynnes
Is-Bencampwr: Huw Jones

DEFAID
DEFAID MYNYDD CYMREIG
Hwrdd, dwy flwydd oed ac yn hŷn
1. Teulu Tanrallt
2 a 3. Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig
Hwrdd Blwydd
1 a 2. Enoc a Dewi Jenkins
3. Teulu Tanrallt
Oen Hwrdd
1 a 3. Enoc a Dewi Jenkins
3. Teulu Tanrallt
Dwy Ddafad, dwy flwydd oed ac yn hŷn
1. Enoc a Dewi Jenkins
2 a 3. Teulu Tanrallt
Dwy Ddafad Blwydd
1. Enoc a Dewi Jenkins
2. Steffan a Garmon Nutting, Tŷ Hen Henllys
3. Teulu Tanrallt
Dwy Oen Benyw
1 a 3. Enoc a Dewi Jenkins
2. Teulu Tanrallt
Cwpan y Grŵp
Pencampwr: Enoc a Dewi Jenkins
Cilwobr: Teulu Tanrallt

Cwpan am Bâr o Hyrddod Blwydd neu hŷn
Pencampwr: Enoc a Dewi Jenkins
Cilwobr: Teulu Tanrallt
3. Steffan a Garmon Nutting
Cwpan am yr Hwrdd Gorau
Pencampwr: Teulu Tanrallt
Cilwobr: Enoc a Dewi Jenkins
Cwpan am yr Oen Hwrdd Gorau
Pencampwr: Enoc a Dewi Jenkins
Cilwobr: Teulu Tanrallt
Pencampwr yr Adran: Teulu Tanrallt
Cilwobr: Enoc a Dewi Jenkins

UNRHYW FRID MYNYDD ARALL
Hwrdd
1. Gwion Evans, Tanllan
2. Huw Davies, Lletyifanhen
Oen Hwrdd
1. Gwion Evans
3. Huw Davies
Dafad
1 a 2. Gwion Evans
3. Trefor Jones, Cwmcae
Dafad Flwydd
1 a 2. Gwion Evans
3. Huw Davies
Oen Benyw
Trefor Jones
Gwion Evans
Huw Davies
Grŵp
Gwion Evans
Pencampwr: Gwion Evans
Cilwobr: Trefor Jones

DEFAID JACOB
Hwrdd
1. Huw Davies, Lletyifanhen
Oen Hwrdd
2. Huw Davies
Dafad
2. Huw Davies
Dafad Flwydd
2. Huw Davies
Oen Benyw
1. Huw Davies

DEFAID TEXEL
Oen Hwrdd
3. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan, Alltgoch
Dafad, dwy flwydd oed ac yn hŷn
3. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan
Dafad flwydd
Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan

DEFAID DORSET MOEL A CHORNIOG
Hwrdd
1. Griffiths a Davies, Dolclettwr
Oen Hwrdd
1. Griffiths & Davies
Dafad Oedrannus
3. Griffiths a Davies
Dafad Flwydd
1 a 3. Griffiths a Davies
Oen Benyw
3. Griffiths a Davies
Oen Fenyw heb ei thocio
2. Griffiths a Davies
Grŵp
Griffiths a Davies
Pencampwr: Griffiths a Davies
Is-Bencampwr: Griffiths a Davies

GWLAN AR Y CARN
Gwlan gwyn
Griffiths & Davies
Pencampwr:
Griffiths & Davies

WYN TEWION
Pâr o ŵyn yn pwyso llai na 32kg yn fyw
Dylan Morgan, Alltgoch
3. Huw Davies, Lletyifanhen

Pâr o ŵyn yn pwyso 32kg neu fwy yn fyw
2. Dylan Morgan
Pâr o ŵyn o unrhyw Frîd Mynydd Pur
1. Dewi ac Enoc Jenkins, Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
3. Gwydion James, Cerrigcyranau Isaf
Pencampwr: Dewi ac Enoc Jenkins

CNEIFIO
Peiriant – Agored
1. Elgan Evans, Tynant
Peiriant – C.Ff.I
3. Gwion Evans, Tanllan
Peiriant – dan 18 oed
2. Gwion Evans

CŴN
Ci Bach (6-12 mis)
2. Amanda Edwards, Awel Dyfi, Tre'r Ddôl
3. Liam Kelly, Maes-y-deri
Ci Hela
2. Dafydd Mason, Graig Fach, Bontgoch
3. Paul Cully, Tal-y-bont
Ci neu ast (agored)
3. Liam Kelly, Maes-y-deri

Ci neu ast defaid sy'n gweithio
1. Dafydd Mason, Graig Fach
2. Beca Davies, Lletyifanhen
Dangosydd Ifanc o dan 12 oed
3. Hana Evans, Cefngweiriog
Dangosydd Ifanc dros 12 oed
2. Liam Kelly, Maes-y-deri
Ci Anwes
1. Lowri Hughes, 6 Maes-y-felin
Ci â'r gynffon sy'n siglo fwyaf
1. Elaine Hughes, 6 Maes-y-felin

DOFEDNOD IEIR
Bantam Brid Prin – Benyw
2. John Jenkins a Lowri Flemming, 12 Dôl Pistyll
Dosbarth y Plant
1 a 2. Bedwyr Siencyn, Tanrallt
3. Ynyr Siencyn, Tanrallt
Cwpan: Bedwyr Siencyn
Dosbarth y Plant - Croesfrid
1. Becca Fflur, 12 Dôlpistyll
2. Bedwyr Siencyn
3. Ynyr Siencyn
Tlws: Becca Fflur

HWYAID
Hwyaden Ysgafn
2. John Jenkins a Lowri Flemming
Meilart Bantam
3. John Jenkins a Lowri Flemming
Hwyaden Bantam
1. Margaret Jenkins, Tyngraig
Dosbarth y Plant
1 a 3. Cylch Meithrin Tal-y-bont, Tŷ Sbri
2. Becca Fflur
Cwpan: Cylch Meithrin Tal-y-bont

ANIFAIL ANWES
2. Sion a Katie Thomas, 5 Dôl Pistyll
3. Gemma Burnham, Salon Leri

PRIF ENILLWYR Y SIOE
CEFFYLAU:
Pencampwr y Sioe: Eiry Bonner, Llanbadarn
GWARTHEG
Da Duon: L. Foxwell, Harlech
Da Biff: Bechgyn Tynddraenen, Trefenter

Pencampwr y Pencampwyr: L. Foxwell, Harlech
DEFAID
Defaid Duon: D a R Rowlands, Ynys Môn
Defaid Penfrith: Tom a Beth Evans, Llanfihangel y Creuddyn
Balwen: Meinir Jones, Capel Isaac, Llandeilo
Torddu: Lynn Williams, Talley
Torwen: Eirian Jones, Capel Isaac, Llandeilo
Jacob: Mark Wakelin, Llanilar
Suffolk: Dafydd Morgan, Llanfihangel y Creuddyn
Charollais: Huw a Bronwen Evans, Llanybydder
Zwartbles: Arfon Lloyd, Trefriw
Bridiau Pur Eraill: Dafydd Owen, Bryncrug
Bridiau Prin a Lleiafrif: Julie Morgan, Llanfihangel y Creuddyn
Pencampwr Pencampwyr y Defaid: Dafydd Morgan (Suffolk)
Cilwobr: Tom a Beth Evans (Penfrith)
CNEIFIO
Gwellaif: E. Roberts, Rhydymain
Peiriant dan 18: Gwydion Davies, Penegoes
CFfI: Owain Lewis, Ponterwyd
CŴN
Dangosydd Gorau dan 12 oed: B. Matthias, Aberaeron
Arddangosiad Gorau (Ci): K. Walsh, Comins Coch
Arddangosiad Gorau (Ast): Rhian Davies, Llanbadarn

DOFEDNOD
Ieir: A. Harding, Pontyclun
Hwyaid: C Cookson, Drenewydd
GEIFR
Gafr Odro: Aeron Edwards, Llanilar
Myn Gafr: Nigel Green, Blaenpennal

CANLYNIADAU'R RASYS CŴN SIOE TAL-Y-BONT 2013
Ras i Gŵn Defaid
1af: Dewi Jenkins - Moss
2il: Ruth Hughes - Myfanwy
3ydd: Paul Pounall - Jake

Ras i Ddaeargwn
1af: Ilan Jones - Nel
2il: Lowri Morgan - Tamed
3ydd: Dewi Jenkins - Tincer

Ras i Filgwn a Chŵn Potsiwr
1af: Llyr James - Sunny
2il: Zoe Jones - Dwley
3ydd: Owain James - Boost

Ras i Filgwn Bach
1af: Alice Woolley - Lilly
2il: Christian Roberts - Lottie
3ydd: Sandra Gorman - Mari

Ras i unrhyw frid arall - coes byr
1af: Billy Swanson - Molly
2il: Anna Sistern - Finn
3ydd: Anna Sistern - Flash

Ras i unrhyw frid arall - coes hir
1af: Chris Fry - Star
2il: Katy Pricket - Mole
3ydd: Abigail Jones - Nala

Ras i ddisgyblion ysgol gynradd
1af: Bedwyr Siencyn - Pero
2il: Dylan Wyn - Guiness
3ydd: Becca Fflur - Sandy

Ras i ddisgyblion ysgol uwchradd
1af: Tom Markham - Jack
2il: Hedd Dafydd - Seren
3ydd: Tomos Jenkins - Sam

Ras i ferched a'u cŵn
1af: Abigail Jones - Nala
2il: Ruth Roberts - Chico
3ydd: Elaine Rowlands - Jessie

Ras i ddynion a'u cŵn
1af: John Palser - Nala
2il: Steffan Nutting - Mair
3ydd: Terry Williams - Spot

Ras olaf y diwrnod
Chris Fry - Star

Cneifio Cyflym C.Ff.I Tal-y-bont 2013

Dyma'r buddugwyr:

Agored
1. Geraint Bebb Jones, Barhedyn, Aberhosan
2. Aeron Pughe, Gwernbere, Darowen
3. Alan Jones, Llangollen

Ieuenctid
1. Rhys Lewis, Sarnau, Llanfihangel y Creuddyn
2. Owain James, Penbanc, Penrhyncoch
3. Geraint Jenkins, Cerrigcyranau, Tal-y-bont

C.Ff.I Tal-y-bont
1. Geraint Jenkins, Cerrigcyranau
2. Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont
3. John James, Penbanc, Penrhyncoch

Rhai dros Ddeugain
1. Philip George, Y Garth, Llanilar
2. Dafydd Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont
3. Enoc Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont

Y Tîm Gorau
Geraint Bebb Jones, Eifion Pughe a Rhys Lewis.

Dyfalu'r amser cyflymaf
Dafydd Jenkins, Tanrallt

Yr amser cyflymaf oedd 25.22 eiliad a llongyfarchiadau gwresog i Geraint Bebb Jones, Pencampwr Cneifio Cyflym C.Ff.I Tal-y-bont, 2013.

Do, cafwyd noson wych o adloniant a braf oedd gweld torf enfawr wedi ymgynnull i gefnogi'r digwyddiad. Edrychwn ymlaen at Gneifio Cyflym 2014!

Betsan Siencyn

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

pp medi 13_Layout 1 10/09/2013 11:26 Page 12

CRWYDRO ER BUDD
yn cyflwyno dwy daith arbennig

Crwydro Patagonia
Tros gyfnod y Pasg
Ebrill 13 – 22 2014
Taith wych a diddorol.
Cyfle i flasu Buenos Aires, Bariloche, Esquel, Trefelin, Y Paith, Y Geiman a Threlew ynghyd â Phorth Madryn.
Blasu bywyd y Wladfa
Tywysydd profiadol.

Gwlad yr Iâ
Tachwedd 3 – 7 2013
Cyfle i weld rhyfeddodau'r wlad, yn eu plith y Blue Lagoon, Goleuadau'r Gogledd (Aurora Borealis) Y Cylch Aur (Golden Circle) a thaith o gwmpas tref Reykjavic.

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu,
Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07771 525690 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com



Ysgol Tal-y-Bont

Staff newydd

Croeso cynnes i Miss Eleri atom. Gobeithio y byddwch yn hapus gyda ni yma yn Ysgol Tal-y-bont.

Mabolgampau

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm buddugol eleni sef Leri.
Marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Miriam Davies
Marciau uchaf merched yng Nghyfnod Allweddol 2 – Tia Johnston-Jones
Marciau uchaf bechgyn yng Nghyfnod Allweddol 2 – Cai Thomas
Ymdrech orau yn y Cyfnod Sylfaen – Sean Spollen
Ymdrech orau yng Nghyfnod Allweddol 2 – Penri Hughes
Capteiniaid Leri – Dylan Benjamin, Jac Jones, Bedwyr Siencyn
Capteiniaid Ceulan – Hana Evans, Ieuan Putt, Tomos Jenkins

Malawi

Ar hyn o bryd mae Mrs Llio Rhys ar ymweliad â gwlad Malawi. Mae Ysgol Tal-y-bont wedi creu cysylltiad agos gydag Ysgol Nkope Hill dros y deunaw mis diwethaf a dyma'r cam diweddaraf yn ein partneriaeth.

Hoffai staff yr ysgol ddiolch o galon i bawb wnaeth ein cefnogi i godi arian i brynu adnoddau i blant Ysgol Nkope Hill. Rydym yn siwr y bydd Mrs Rhys yn rhannu manylion y daith gyda darllenwyr Papur Pawb maes o law.

Ardal Allanol yr Ysgol

Tybed beth sy'n digwydd ar flaen yr ysgol? Bydd yn rhaid aros ychydig eto cyn gweld yn iawn! Diolch i Einion a John am eu gwaith yn paratoi'r tir.

Llongyfarchiadau mawr i holl gyn-ddisgyblion yr ysgol ar lwyddo yn eu haroliadau TGAU a lefel A. Pob lwc i'r criw sydd wedi ein gadael am Ysgol Penweddig eleni hefyd. Edrychwn ymlaen at glywed eich hanes yn fuan.

Apêl Elain

Llongyfarchiadau i Mr Hefin Jones, Pennaeth yr ysgol, am seiclo o Aberystwyth i Fryste ac yn ôl dros dridiau yn yr haf i godi arian i gronfa Apêl Elain; taith o tua 250 o filltiroedd! Mae'r criw yn gobeithio codi tua £2,000 i'r apêl.

Clwb Llyfrau Sefydliad y Merched Tal-y-bont

Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth ac yr ydym yn cychwyn ar y bedwaredd flwyddyn gydag un ar ddeg o aelodau. Dyma'r chwech llyfr cyntaf ar ein rhestr newydd rhag ofn fod unrhyw un am ymuno a ni. Mae croeso i bawb, nid oes raid bod yn aelod o Sefydliad y Merched. Yr ydym yn cwrdd yn y neuadd yn Nhal-y-bont bob rhyw chwech wythnos ar bnawniau dydd Iau.

The Attenbury Emeralds (Jill Paton Walsh)
A Street Cat named Bob (James Bowen)
Remarkable Creatures (Tracy Chevalier)
Cider with Rosie (Laurie Lee)
Still Alice (Lisa Ginova)
And the Mountains Echoed (Khaled Hosseini)

Ioga
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Ysgol Tal-y-Bont

Mabolgampau

Malawi

Ardal Allanol yr Ysgol

Apêl Elain

Priodas Mari a Gareth

Ar ddydd Sadwrn Awst 31ain yn Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn fe briodwyd Mari Davies, Dolclettwr a Gareth Hughes, Alltddu, Tregaron. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Marine a bydd y ddau yn ymgartrefu yn ardal Pontrhydfendigaid. Pob dymuniad da i'r ddau.

Priodas Rachel a Ben

Ben Fothergill, Minafon, Tal-y-bont a Rachel Bott o Swydd Sussex yn dathlu eu priodas ym Moelglomen, Tal-y-bont. Daeth y gwesteion o bob rhan o'r byd yn cynnwys Awstralia, Norwy a Honduras. Mae'r ddau bellach yn byw ac yn gweithio yn Nhŷ Ddewi.

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ar ddiwedd tymor yr haf bu'r plant bach yn brysur iawn gydag amryw o deithiau a gweithgareddau!

Ar fore Llun y 24ain o Fehefin aeth y criw bach i weld sioe 'Igam Ogam' yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Cymeriad bach bywiog yw 'Igam Ogam' sydd i'w gweld yn gyson yn y rhaglen boblogaidd o'r un enw ar S4C. Diddanwyd y plant gyda llond lle o ganu a dawnsio a daeth y sioe ddawns yma â'r ferch ogof fach Igam Ogam a'i ffrindiau yn fyw ar y llwyfan! Profiad unigryw i'r criw bach!

Ar 17 Gorffennaf aeth y plant ar eu taith haf i'r ganolfan hamdden Glan-y-Môr, Clarach i fwynhau ar yr offer chwarae meddal. Bu yno lawer o redeg a rasio a llithro ar y llithren droellog! I adfer y lefelau egni cafodd y plant luniaeth yno a dyma nhw i ffwrdd eto ar garlam i chwarae!

Mae'r plant wedi cael y cyfle i ddysgu amryw o sgiliau yn ystod y tymor diwethaf megis sut i goginio wahanol ddanteithion - gyda'r rhieni yn blasu ffrwyth eu doniau yn aml! Mae'r Cylch wedi cael deiliaid newydd yn yr ardd – sef hwyaid! Mae'r plant wrth eu boddau yn gofalu amdanynt ac yn edrych ymlaen at roi bwyd a dŵr iddynt yn y bore! Mor dda oedd y gofal – enillodd yr hwyaid wobr gyntaf yn eu hadran yn Sioe Tal-y-bont! Da iawn chi blant!

Helo a ffarwel!

Rydym wedi ffarwelio â Grace, Isabelle, Alfie, Elen ac Evie sydd bellach wedi cychwyn yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont. Pob lwc i chi ar eich taith addysgiadol newydd.

Croeso mawr i Cian a Steffan i'r Cylch Meithrin – bydd llawer o sbort a sbri yn eich disgwyl yn ein plith!

Edrychwn ymlaen at dymor arall o hwyl!

Non Jones

Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont

Un o gaeau Llety Ifan Hen oedd lleoliad ein treialon ar Awst 7fed eleni eto, fel ers nifer o flynyddoedd bellach. Wedi dechrau araf bu cystadlu cyson drwy'r dydd hyd yr hwyr gyda nifer dda o gystadleuwyr - rhai wedi teithio o'r cyfandir. Bu'r tywydd yn ffafriol drwy'r dydd, heb fod yn rhy boeth i flino'r cŵn.

Ar ddiwedd y dydd diolchodd y cadeirydd, Dilwyn Evans, Tynant i deulu Llety Ifan Hen am fenthyg y cae a'r defaid ar gyfer y treialon; aelodau'r pwyllgor am stiwardio yn ystod y dydd; i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd eleni eto ac yn arbennig i'r beirniad, Llŷr Evans o Fronant am ei waith yn ystod y dydd. Diolchwyd yn arbennig i Marion a'r tîm a gamodd i'r bwlch ar fyr rybudd i baratoi lluniaeth yn ystod y dydd. Yna wedi diolch i'r llywydd Ieuan Evans, am ei rodd hael cyflwynodd y gwobrau i enillwyr y dydd.

Enillwyd y dull cenedlaethol gan Eirian Morgan, Aberystwyth gyda'i gi Spot a'r dull De Cymru gan Islwyn Jones, Capel Bangor gyda Joe. Islwyn Jones hefyd enillodd y cawg rhosod er cof am Richard Edwards, Lletyllwyd am y rhediad orau yn ystod y dydd. Enillodd Dewi Jenkins, Tyngraig sawl dosbarth - nofis dull De Cymru, y dosbarth cyfyngedig i Geredigion, a chystadleuaeth i aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc y sir, i gyd gyda'i gi Moss. Ef hefyd enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i aelodau'r pwyllgor dan feirniadaeth y llywydd y noson gynt. Daeth Gwion Evans, Tanllan yn ail a thrydydd yn y gystadleuaeth i'r Ffermwyr Ifanc.

Yn hwyr y prynhawn cynhaliwyd cystadlaethau cneifio gyda William Davies, Brynglas yn beirniadu. Enillwyd y dosbarth agored gan Owain James, Penbanc gyda Gwion Evans, Tanllan yn ail ac Elgan Evans, Pantcoch yn drydydd. Owain James hefyd enillodd y dosbarth agored i aelodau Ffermwyr Ifanc gyda Rhys Richards, Clap y Cripiau yn ail a Dewi Jenkins, Tyngraig yn drydydd. I aelodau Ffermwyr Ifanc dan 21 oed yr enillydd oedd Dewi Jenkins gyda Llŷr James, Penbanc yn ail a Gwion Evans yn drydydd.

Wrth adael y cae ar ddiwedd y dydd cytunodd pawb ein bod wedi cael diwrnod llwyddiannus iawn unwaith eto eleni.

Dewi Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont yn derbyn 5 cwpan yn y Treialon Cŵn Defaid

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Dros fisoedd yr haf, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Cyngor. Dyma rai materion a drafodwyd:

Llifogydd Haf 2012

Cafwyd cyflwyniad gan Mick Fothergill, Minafon, am y Cynllun Llifogydd Cymunedol a luniwyd gan y 'Floodees' ar gyfer pentref Tal-y-bont. Cytunwyd i'w gwahodd i lunio rhestr o'r eitemau yr hoffent i'r Cyngor gynorthwyo i'w harchebu i leihau'r risg yn y dyfodol; hefyd pasiwyd i wahodd swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru i annerch y Cyngor ar eu cynlluniau hwythau i fonitro llif y dŵr yn afon Eleri.

Problemau Parcio

Derbyniwyd cwyn ynghylch problem gyrru rhwng talcen y Llew Du a Brynhyfryd ar rai adegau oherwydd bod cerbydau wedi'u parcio ar rannau cul o'r ffordd. Cytunwyd i anfon llythyr at yr Heddlu'n tynnu sylw at y broblem.

Cysgodfan Newydd Maes-y-deri

Diolchwyd i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins, a'i fintai o wirfoddolwyr, am ddymchwel yr hen gysgodfan goncrid ym Maes-y-deri; adroddwyd fod y gysgodfan newydd bellach yn ei lle.

Gardd Flodau

Adroddwyd fod wal yr ardd fach ger prif fynedfa Cae'r Sioe wedi'i hailgodi a blodau lliwgar wedi'u plannu yno. Braf deall bod nifer o drigolion lleol ac ymwelwyr yn canmol yr ardd yn fawr.

Mabwysiadu Dôl Pistyll

Derbyniwyd llythyr i gadarnhau bod Cyngor Sir Ceredigion bellach wedi mabwysiadu'r ffordd yn Nôl Pistyll. Gan fod peth ansicrwydd ynghylch materion cynnal a chadw'r goleuadau stryd a'r llwybr troed, cytunwyd i anfon gair yn holi a gynhwyswyd yr elfennau hyn yn y cynllun mabwysiadu.

MID WALES STORAGE
Storfa Canolbarth Cymru
STORFA DODREFN
STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR
PACEDU
DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS
www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Clwb Gwawr y Pennau

Ar ôl seibiant dros yr haf aeth aelodau Clwb Gwawr y Pennau am dro ar hyd Llwybr Llên Llanfihangel-genau'r-glyn, nos Wener y 6ed o Fedi. Ar ôl darllen am gefndir sefydlu'r llwybr cychwynnodd 11 ohonom ar y daith sy'n cychwyn yn y coed tu ôl i Eglwys Mihangel. Detholiad o awdl fuddugol Huw Meirion Edwrds oedd y gerdd gyntaf ar y llwybr ac fe'i darllenwyd yn uchel i ni gan Delyth Ifan. Ceir 16 o gerddi i gyd sy'n amrwyio o ran cynnwys ac arddull gan feirdd sydd â chysylltiad â'r pentref. Yn ogystal â'r cerddi mae yna nodiadau am y beirdd a chynnwys y cerddi sydd yn ddiddorol dros ben. Darllenwyd y gerdd olaf ar y llwybr, cerdd o waith Lleucu Roberts, gan Lisa Tomos. Os oes gennych rhyw awr i sbarun, ewch am dro i Lanfihangel-genau'r-glyn, yn ogystal â cherddi fe gewch olygfyedd gwych o'r ardal wrth i chi gerdded y Llwybr Llên.

Ar ôl cerdded roedd rhaid cael bwyd! Cafwyd swper a chroeso cynnes yn y Tŷ Indiaidd yn Borth i gloi'r noson.

Mae rhaglen ddiddorol ac amrywiol wedi'i threfnu ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni. Am fwy o fanylion cysylltwch â Rhian Nelmes (rhian.nelmes@btinternet.com).

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Arddangosfeydd Celf:** Michael Roberts (27 Awst-19 Medi); Ann Thomas (23 Medi-24 Hydref)
- **Cristnogaeth 21 yn Morlan** (7.30, 11 Medi) – *Byw'r Cwestiynau*
- **Bwrw Bol** (7.30, 18 Medi): noson o drafod ar y testun: *"Ai yn wirfoddol neu'n orfodol y mae sicrhau dyfodol i'r iaith?"*. Mynediad: £2.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Y Gair Olaf

Shwmae! Dwi eisiau byw yn Gymraeg, fel gŵyr nifer o ddarllenwyr Papur Pawb eisoes mae'n debyg. Ond beth yn union dwi'n ei feddwl, ac a yw'n bosib byw yn Gymraeg yn Nhal-y-bont, neu yn Llanwrin lle dwi'n byw bellach? Fel unrhyw slogan sydd digon byr i'w gofio, mae modd camddeall yr hyn sydd dan sylw - does dim eisiau cynnal pob un sgwrs yn Gymraeg o reidrwydd, nac yn wir cogio nad ydych yn medru iaith neu ieithoedd eraill. Eisiau hyder a pharch yn ein hiaith ein hunain, eisiau bod yn gennad i'r ddi-Gymraeg, yn gymorth i ddysgwyr, yn broc cyfeillgar i gof y rhai sy'n dechrau anghofio. "Eisiau" ydw i, oherwydd nid ar chwarae bach mae gwneud hyn, a does neb yn berffaith! Eisiau gweithredol ydy o. "Eisiau" hefyd, oherwydd o dderbyn yr her yma, mae'n glir bod angen gweithredu - yn wleidyddol ac yn uniongyrchol. Petai Carwyn Jones, er enghraifft, o ddifri eisiau i ni gael byw yn Gymraeg, fe fyddai'n gweithredu mewn ffordd gwbl wahanol! Ac yn hytrach na chwyno, dwi eisiau gweithredu er mwyn dangos y ffordd. Ond hyd yn oed os nad yw dull Cymdeithas yr Iaith o weithredu i'ch dant chi, beth am fyw yn Gymraeg ar ddiwrnod Shwmae Su'mae ar Hydref 15fed? Mae eisiau dechrau pob sgwrs yn Gymraeg, a gorffen pob sgwrs hefyd, shwmae a diolch gyda gwên. Beth am drefnu rhywbeth yn Nhal-y-bont i nodi diwrnod shwmae yn Nhal-y-bont? Dwi eisiau i chi ddefnyddio'ch dychymyg! Ydych chi eisiau byw yn Gymraeg?

Robin Farrar

Garej Paul Joseph
01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT

Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth MOT

TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

CHWARAEON

Teigars Talybont dan 9

Yr Ŵyl Bêl-droed

Unwaith yn rhagor cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed llwyddiannus ar Gae'r Odyn Galch ar 22 Mehefin, y cyfan wedi'i drefnu'n effeithiol gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont, dan ofal medrus Ceri Jones.

Eleni roedd 38 tîm yn cystadlu, cynnydd o chwe thîm ers llynedd. Roedd cystadlaethau ar gyfer plant dan 7, dan 9, a dan 11.Teirw Talybont enillodd y cwpan yn y grŵp dan 11, perfformiad gwych gan y chwaraewyr a hyfforddwyd yn ddoeth gan Wyn Benjamin.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer y dydd gan Principality, Aberdyfi Boat Charter, Hillsboro Residential Home, AnthonyVW, Paul James, Davies Heulyn Davies, @ebol, a Paul Joseph. Noddwyr y medalau oedd Keith a Helen, y Llew Gwyn. Cafwyd cefnogaeth werthfawr hefyd gan Wynford, Annemarie, Mike & Nicky Thomas, Lloyd Coaches, a Garej Davmor.

Enillwyr y Ras Lwcus oedd: 1af £100 Jamie Barron, Brynawel, Tal-y-bont; 2ail £50 Anne Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont; 3ydd £25 Sam Ebenezer, Maes y Felin, Tal-y-bont.

Dymuna'r Clwb hefyd ddiolch i'r canlynol am eu cymorth: Spar Tal-y-bont, Lyn Ebenezer a Siwan Tomos am werthu tocynnau'r Ras Lwcus; Debbie Benjamin a'r merched am drefnu'r bwyd ar y maes; Anthony Southgate am baratoi'r maes; Gwilym Huws am weithredu fel Llywydd y Dydd; ac i'r holl wirfoddolwyr a sicrhaodd holl lwyddiant y diwrnod.

Tymor Cymysg i'n Cricedwyr

Yn ystod tymor 2013, roedd Tal-y-bont, wrth chwarae ar eu gorau, ymhlith timau gorau prif gynghrair y gorllewin. Cafwyd buddugoliaethau nodedig dros Aberaeron (ddwywaith), 'Commoners' y Brifysgol, a Dolgellau. Droeon eraill, cafwyd perfformiadau siomedig - wrth golli yn erbyn ail dîm Aberystwyth, ac yn enwedig oddi cartref yn Nhregaron, lle methodd batwyr Tal-y-bont a dygymod a llain nodweddiadol araf. Gallai'r bechgyn fod wedi gorffen unrhywle rhwng chweched a thrydydd yn y tabl, ond cafwyd buddugoliaeth fawr yn Nhywyn ar ddiwrnod ola'r tymor, gan sicrhau'r trydydd safle.

O blith y batwyr, roedd Jim Vaughan y capten fel arfer yn arwain y ffordd, gan sgorio cant ar ddiwrnod crasboeth yn Nolgellau, a nifer o sgoriau sylweddol eraill. Cyfrannodd eraill yn dda hefyd, yn eu plith Rhodri Lloyd-Williams a Huw Davies, y batiwr ifanc arwyddodd o Dywyn ar ddechrau'r tymor. Rhaid hefyd nodi tymhorau llwyddiannus Anish Kuriakose, y bowliwr cyflym o Benrhyn-coch, a gafodd gefnogaeth gan Nick Cooke, David Evershed, Owen Roberts a'r troellwr profiadol Simon Lloyd-Williams. Rhaid rhoi'r diolch pennaf, fodd bynnag, i Matthew Willis, sy'n a'r swydd anodd o drefnu'r tîm bob wythnos.

Rhaid nodi nad yw Cynghrair y Gorllewin mor iach ag y bu. Mae ambell dim megis Rhaeadr Gwy a Llambed wedi dod i ben, ac mi aeth pencampwyr y llynedd, Llanymddyfri, i chwarae mewn cynghrair yn y de. Ond o leiaf caniataodd y tywydd i'r rhan helaeth o'r gemau gael eu cwblhau eleni. Mae'r rheolau newydd fel petaent yn boblogaidd, a gobeithio y daw gwell llewyrch ar y gynghrair unwaith eto.

Owen Roberts

Llun: Tîm Criced Tal-y-bont 2013:
Rhes gefn: Sojan Varghese, Simon Lloyd-Williams, Rhodri Lloyd-Williams, David Evershed, Nick Cook, Jim Vaughan;
Rhes flaen: Rhys Jeremiah, Ian Taylor, Vinod Mathew, Robbie Taylor, Matthew Willis.